

# Ffeithlen Glan y Môr

**Bwriad y ffeithlen hon yw darparu'r wybodaeth gefndirol angenrheidiol i athrawon ddefnyddio'r cynlluniau gwersi a'r taflenni gwaith yn hyderus. Ymhlith nifer o wefannau eraill a allai fod yn ddefnyddiol mae **Wikipedia, ARKive, BBC Nature, Naturenet, RSPB** a'r Ymddiriedolaethau **Bywyd Gwylt**.**

## Cimwch

Teulu o gramenogion morol mawr (Nephropidae) yw'r cimwch bodiog. Mae eu hurdd Decapoda (sy'n golygu 'â 10 aelod corff') yn cynnwys rhywogaethau megis y cimwch Ewropeaidd (Lladin: *Homarus gammarus*). Mae'r cimwch yn bwysig yn economaidd fel bwyd môr ac yn sail diwydiant byd-eang sy'n ennill \$1.8 biliwn mewn masnach bob blwyddyn.


Mae'r creaduriaid di-asgwrn-cefn hyn i'w cael ym mhob cwr o'r byd. Mae gan gimychiaid 10 coes, gyda'r pâr blaen wedi'u haddasu'n grafangau. Mae un yn fawr ac yn ddi-fin, wedi'i ddatblygu ar gyfer mathru, tra bod y llall yn fwy miniog ac ychydig yn llai, ar gyfer torri. Cânt eu hamddiffyn gan sgerbwd allanol caled. Mae'r oedolion yn las tywyll o ran lliw, ond maent yn troi'n goch llachar ar ôl eu coginio. Mae'n rhaid iddynt fwrw eu cregyn er mwyn tyfu, sy'n eu gadael yn ddiamddiffyn i ysglyfaethwyr yn ystod y broses honno. Mae cimychiaid yn parhau i dyfu trwy gydol eu bywydau, ac nid yw'n anarferol iddynt fyw dros 100 o flynyddoedd. Roedd y cimwch mwyaf erioed a gafodd ei ddal yn pwysu 20.15 kg!

Mae cimychiaid yn byw ar waelodion creigiog, tywodlyd neu leidiog o'r draethlin tuag allan. Maent yn tueddu i fyw ar eu pennau eu hunain, mewn agennau neu o dan greigiau. Mae'r cimwch Ewropeaidd yn byw yn nyfroedd Gogledd yr Iwerydd, o Norwy arctig i Foroco. Prin y deuir o hyd iddo islaw 50m o ddyfnder. Maent yn bwyta molysgiaid, llyngyr, crancod, sêr môr ac



[www.npt.gov.uk/biodiversity](http://www.npt.gov.uk/biodiversity)





ychydig o bysgod a llystyfiant. Nid yw cimychiaid yn gallu gweld yn dda ac mae'n dibynnu ar eu teimlyddion i ddal bwyd yn eu hamgylchedd cymylog.

Mae'r fenyw'n cyrraedd aeddfedrwydd rhywiol pan mae rhwng 5 a 7 oed. Fel arfer mae paru'n digwydd rhwng gwryw â chragen galed a benyw â chragen feddal newydd ei bwrw. Caiff sberm ei drosglwyddo o'r gwryw trwy ddwythellau ar waelod y pâr olaf o goesau cerdded i gynheilydd sberm ar y fenyw. Gall y fenyw gadw'r sberm tra bod yr wyau'n aeddfedu, gan eu ffrwythloni wrth eu dodwy. Caiff yr wyau wedi'u ffrwythloni eu cludo o dan abdomen y fenyw am 9-12 mis. Yna mae'r larfâu yn arnofio yn y dŵr agored am 5-10 wythnos; caiff llawer eu bwyta yn ystod y cam hwn. Maent yn tyfu ac yn bwrw eu cregyn, nes eu bod yn dechrau edrych fel cimwch bach (3ydd bwrw). Amcangyfrifir mai dim ond tua 0.005% o'r cimychiaid a gaiff eu deor sy'n goroesi i'r cam hwn. Byddant wedyn yn ymsefydlu ar waelod y cefnfor ac yn turio i'r llaid a'r tywod, heb symud ond yn anaml iawn am hyd at 2 flynedd. Maent yn bwyta llyngyr morol a larfâu creaduriaid eraill y môr megis crancod bach a draenogod môr yn ystod y cam hwn. Ar ôl iddynt dyfu i oddeutu 15mm o hyd, byddant yn dechrau bywyd fel oedolyn. Yn gyffredinol, mae cimychiaid yn cerdded yn araf ar hyd llawr y môr, er y gallant nofio wysg eu cefn ac yn gwneud hyn i ffoi rhag perygl.

## Seren fôr

Ecinoderm yw'r seren fôr sy'n perthyn i ddsbarth yr Asteroidea. Mae'r enw Saesneg 'starfish' yn gamarweiniol gan nad ydynt yn bysgod.

Mae sêr môr yn amrywio o ran maint, ffurf a lliw. Mae meintiau'n amrywio rhwng breichiau 1cm y seren glustog a breichiau hir main y seren Brisingid Bathyal sy'n mesur bron 91cm o led. Fel arfer mae ganddynt bedair "braich" sy'n ymestyn allan o ddisg canolog. Gall sêr môr atgynhyrchu breichiau sy'n cael eu colli. Nid oes ganddynt sgerbwd cymalog, symudol i'w cynnal neu i'w helpu i symud, ond yn hytrach maent yn dibynnu ar system fasgwlar ddyfrol hydrolog. Mae'r llw o draed tiwb ymwithiol ar eu hochrau isaf yn eu cynorthwyo gyda bwyta yn ogystal â symud. Maent yn bwyta anifeiliaid â chregyn megis wystrys a chregyn bylchog. Mae ganddynt ddwy stumog: gallant ymestyn un allan i amgáu a threulio ysglyfaeth a defnyddio'r llall ar gyfer treulio.

Gall sêr môr atgenhedlu'n rhywiol ac yn anrhywiol. Mae ffrwythloni'n cael ei gyflawni'n allanol. Mae'r gwryw a'r fenyw'n rhyddhau nifer enfawr o wyau a sberm i'r amgylchedd. Mae'r larfâu sy'n deor yn byw yn y golofn ddŵr nes iddynt ymsefydlu ar wely'r môr a thrawsffurfio'n oedolion.



## Morlo

Mae'r morlo'n aelod o'r teulu Phocidae neu Wir Forloi. Mae hyn yn eu gwahaniaethu rhag morloi clustiog megis morloi manflewog a morlewod. Mae morloi wedi addasu'n helaeth i fyw mewn ddŵr, er eu bod yn parhau i ddychwelyd i'r tir neu'r pacrew i fridio a rhoi genedigaeth. Mae eu cyrff llyfn, hirfain yn cynorthwyo nofio, tra bod haenen o floneg o dan y croen yn helpu i reoli tymheredd. Defnyddir yr esgyll blaen ar gyfer llywio ac mae'r esgyll ôl yn eu galluogi i nofio'n gyflym iawn a thros belltiroedd hir. Mae eu systemau resbiradol a chylchredol wedi addasu i'w galluogi i blymio i ddyfnder sylweddol, a gallant dreulio cyfnodau estynedig dan ddŵr.

Mae eu llygaid mawr yn eu galluogi i weld lle nad oes llawer o olau, sy'n golygu eu bod yn gallu hela neu nofio gyda'r nos, neu i lawr i ddyfnderoedd lle ychydig iawn o olau sydd ar gael. Mae eu wisgers yn sensitif i'w cyffwrdd ac mae'n debyg eu bod yn helpu'r anifail i ddod o hyd i fwyd.

Mae'r morlo llwyd neu forlo llwyd yr Iwerydd (Lladin: *Halichoerus grypus*) a'r morlo cyffredin (Lladin: *Phoca vitulina*) i'w gweld oddi ar arfordir Cymru, yn enwedig yn Sir Benfro a Cheredigion. Mae golwg du ar forloi llwyd pan fônt yn wlyb, a gellir gwahaniaethu rhyngddynt a'r morloi cyffredin sy'n llai o ran maint ag wyneb fwy byrdew.

Mae'r tymor geni'n dechrau yn yr hydref pan fo morloi bach dan orchudd blew gwyn yn dechrau ymddangos mewn cilfachau o gwmpas yr arfordir. Mamal yw'r morlo ac mae'r fenyw'n bwydo llaeth llawn braster i'r cenawon sy'n drwchus tu hwnt, sy'n golygu eu bod yn tyfu'n gyflym iawn yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf. Mae'r oedolion yn bwydo ar amrywiaeth o bysgod, a byddant hefyd yn cymryd octopysau, môr-lewys a chimychiaid.

## Gwylan

Aderyn yw'r wylan sy'n perthyn i deulu'r Laridae. Mae'r rhan fwyaf yn gigysyddion sy'n nythu ar y ddaear ac yn cymryd bwyd byw megis crancod a physgod bach neu sy'n chwilio am sborion. Fel arfer maent yn rhywogaethau arfordirol neu fewndirol, heb fentro'n bell i'r môr ond yn anaml. Mae gwylanod yn nythu mewn cytrefi mawr, swnllyd a thrwchus eu poblogaeth. Maent yn dodwy dau neu dri ŵy brith mewn nythod wedi'u creu o lystyfiant. Mae'r rhai ifanc yn frown brith tywyll ac yn symudol o'r amser cânt eu geni.

Ceir pedair rhywogaeth ar ddeg o wylanod yn Ewrop, er mai'r rhai sy'n cael eu gweld amlaf yw Gwylanod y Penwaig (Lladin: *Larus argentatus*), Gwylanod Cefnddu Mwyaf (Lladin: *Larus marinus*) a Gwylanod Cefnddu Lleiaf (Lladin: *Larus fuscus*). Mae'r rhywogaethau hyn i'w gweld yn aml ger tomenni sbwriel a chaeau chwarae dros y gaeaf a'r tymor bridio. Yn aml, maent yn dod i arfer â phresenoldeb pobl a byddant yn cymryd neu'n dwyn bwyd.



## Misglen

Defnyddir yr enw cyffredin misglen i ddisgrifio aelodau o sawl teulu gwahanol o gregyn bylchog neu folysgiaid deuglawr sy'n byw mewn dŵr croyw a dŵr hallt. Fel arfer mae ganddynt gragen sydd rhywfaint yn hirgul ac anghymesur o'i chymharu â'r hyn sydd gan gregyn bylchog bwytdwy eraill. Yn aml defnyddir y gair misglen hefyd i ddisgrifio cregyn gleision (*Mytilus edulis*) sy'n cael eu casglu'n gyffredin fel bwyd ledled y byd.

Mae cregyn gleision yn byw mewn ardaloedd rhynglanwol, gan lynu eu hunain wrth greigiau ac is-haenau caled eraill ag adeileddau cryf tebyg i edafedd. Yn aml deuir o hyd iddynt wedi'u clymu ynghyd ar greigiau wedi'u golchi gan y tonnau. Mae cydglymu yn dal y misglod yn gadarn yn erbyn grym y tonnau. Mae ffrwythloni'n cael ei gyflawni'n allanol. Mae'r gwryw a'r fenyw yn rhyddhau eu sberm a'u hwyau; mae'r larfâu sy'n cael eu geni'n drifftio am rhwng tri a chwe mis cyn ymsefydlu ar arwyneb caled.

Maent yn hidlwyr bwyd, gan fwyta plancton a chreaduriaid microsgopig eraill y môr sy'n arnofio'n rhydd mewn dŵr hallt. Caiff misglod eu bwyta gan bobl, sêr môr, adar môr a sawl math o falwod môr a gwllithod môr.

## Macrell

Macrell yw'r enw a roddir i sawl gwahanol rhywogaeth o bysgod, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn perthyn i deulu'r pysgod 'Scombridae'. Mae'r rhan fwyaf yn byw oddi ar yr arfordir yn amgylchedd y cefnfor, er bod rhai megis macrell Sbaen yn ymweld â baeau. Mae mecryll yn tueddu i fod yn fain ac yn silindraidd, gydag esgyll bach niferus y tu ôl i'r esgyll cefn a rhethrol. Gall y rhywogaeth fwyaf, y Macrell Brenin, dyfu hyd at 1.68m o hyd.

Mae mecryll yn bwydo ar amrywiaeth o ysglyfaeth gan gynnwys pysgod bach megis llymriaid a chramenogion bach. Mae'r pysgod hyn wedi addasu'n rhagorol ar gyfer hela; gall eu cyrff llyfn dorri trwy'r dŵr ar gyflymderau hyd at 20 mya. Cânt eu hela gan adar y ddrycin, tiwna, dolffiniaid, morfilod, morfilod orca, gwylanod, marlyniaid, siarcod a phobl.

Y macrell cyffredin (*Scomber scombrus*) yw, o bell ffordd, y mwyaf cyffredin o ddeg rhywogaeth y teulu a ddelir yn nyfroedd Prydain. Mae'n gyffredin dros ben mewn heigiau enfawr sy'n mudo tuag at yr arfordir i fwydo ar fân bysgod a chorgimychiaid yn ystod yr haf.

Mae cefnau'r pysgod hyn yn wyrddlas symudliw â chromliniau du. Mae mecryll hyd at 66cm o hyd wedi cael eu cofnodi, ond mae tua 40cm yn fwy arferol. Mae'r fenyw yn rhyddhau hyd at filiwn o wyau ar y tro. Mae'r broses ffrwythloni'n digwydd yn allanol.